

Rheoli ymddygiad eich plentyn



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Awgrymiadau da gan Therapydd Iaith a Lleferydd

Gall helpu eich plentyn i gyfathrebu o enedigaeth hefyd eich helpu i ddeall ei ymddygiad, felly gyda'ch gilydd gallwch feithrin ei sgiliau lleferydd ac iaith.

Dyma rai syniadau ynglŷn â sut y gallwch helpu:



Sylw a Gwrando

(gan ganolbwyntio ar weithgareddau a gwranddo ar eiriau llafar)

- Sicrhewch eich bod 'wyneb yn wyneb' gyda'ch plentyn er mwyn i chi weld wynebau eich gilydd. Bydd hyn yn eich helpu i glywed a deall eich gilydd.
- Mae bob amser yn syniad da i alw enw eich plentyn i sicrhau eich bod yn cael ei sylw. Efallai na fydd eich plentyn yn gallu gwranddo os yw'n canolbwyntio ar rywbeth arall.



Dealltwriaeth

(deall beth mae geiriau a brawddegau yn ei olygu)

- Defnyddiwch wrthrychau neu luniau i ddangos i'ch plentyn beth sy'n mynd i ddigwydd yn ystod y dydd e.e. dangos hwyaden fach iddyn nhw amser bath. Bydd hyn yn helpu eich plentyn i ddeall beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf.
- Rhowch un cyfarwyddyd ar y tro yn unig, i'w helpu i gofio'r hyn rydych wedi'i ddweud e.e. 'gwisga dy byjamas yn gyntaf'..... 'nawr brwsia dy ddannedd'.
- Rhowch wybod i'ch plentyn beth rydych chi am iddyn nhw wneud e.e. 'cerdded os gweli di'n dda', nid yr hyn nad ydych am iddynt wneud. Mae geiriau negyddol fel 'na' neu 'paid' yn anodd i blant eu deall. Os ydych chi'n dweud 'paid â rhedeg', efallai mai dim ond y gair 'rhedeg' y bydd eich plentyn yn ei ddeall.
- Ceisiwch beidio â gofyn gormod o gwestiynau, yn enwedig os nad ydych yn rhoi amser i'ch plentyn eu hateb. Dywedwch wrthyn nhw beth sy'n digwydd, yna arhoswch i roi amser iddyn nhw ymuno e.e. 'Mae'r teledu wedi gorffen, nawr mae'n amser mynd am dro. Rydym ni angen ein hesgidiau a ...'



Chwarae

(archwilio teganau a'r byd o'u cwmpas)

- Cymerwch amser i chwarae gyda'ch plentyn yn ystod y dydd. Dyma sut y byddant yn dysgu am y byd o'u cwmpas.
- Gwylwch yr hyn y mae gan eich plentyn ddiddordeb ynddo a sut mae'n chwarae gyda theganau, fel y gallant chwarae'n hirach.



Iaith Iafar

(gan ddefnyddio geiriau a brawddegau, hyd yn oed os nad yw'r seiniau'n iawn)

- Helpwch eich plentyn i ddatblygu ei siarad drwy roi dewisiadau iddo, oherwydd efallai y bydd yn ei chael yn anodd dweud wrthyhych beth mae eisiau e.e. 'beth wyt ti eisiau i frecwast heddiw... grawnfwyd neu dost?'. Rhowch amser i'ch plentyn wneud dewis drwy edrych, pwyntio neu ddweud beth maen nhw eisiau.
- Gall plant ei chael yn anodd dweud wrthyhych sut maen nhw'n teimlo, felly efallai y byddan nhw'n defnyddio eu hymddygiad i gyfathrebu â chi. Siaradwch am sut mae eich plentyn yn teimlo a disgrifiwch yr hyn sy'n digwydd e.e. 'rwy'ti'n crio, rwy'n meddwl dy fod ti'n grac am fod dy frawd wedi mynd â dy degan, beth am i ni chwarae gyda'r ddoli hon yn lle.'
- Rhowch wybod i'ch plentyn beth sy'n digwydd neu beth sydd newydd ddigwydd yn hytrach na gofyn 'pam'. Yn aml, ni all plant ateb cwestiynau 'pam' nes eu bod tua 5 mlwydd oed.



Lleferydd

(y synau unigol rydych chi'n eu defnyddio mewn geiriau)

- Efallai na fydd eich plentyn yn gallu dweud geiriau'n glir eto. Ailadroddwch yr hyn y mae eich plentyn wedi'i ddweud yn gywir ac yn glir, fel y gall glywed y ffordd gywir o ddweud y geiriau. Os na allant fynegi eu hunain yn glir, efallai y byddant yn teimlo'n rhwystredig e.e. Os yw eich plentyn yn dweud 'caff', dywedwch chi 'ie cath yw e!'
- Ceisiwch beidio â gofyn i'ch plentyn ailadrodd y gair cywir oherwydd efallai y bydd hyn yn anodd o hyd.



Rhyngweithio Cymdeithasol

(sgiliau sydd eu hangen arnom wrth gyfathrebu â phobl, e.e. cymryd tro, cyswllt llygaid a dangos diddordeb mewn eraill)

- Mae plant yn dysgu wrthym ni am sut i rhyngweithio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol e.e. rhannu teganau. Fe rhan o'ch trefn ddyddiol, dewch o hyd i gyfleoedd i chi a'ch plentyn gymryd tro mewn gweithgareddau fel chwarae pi-po neu i sblasio'r dŵr yn y bath.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch Ymwelydd Iechyd Lleol neu ewch i'n gwefan:



llyw.cymru/siaradgydafi



#SiaradGydaFi